CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

HYSBYSIAD O FWRIAD I GAEL GWARED AR Y CWRS GOLFF LLANGEFNI

Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015
RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN fod Cyngor Sir Ynys Môn yn bwriadu cael gwared ar tîr y cwrs golff yn Llangefni.

Mi fydd y llain ymarfer, ardal ymarfer a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd.

Mae manylion y gwarediad arfaethedig ar gael i'w harchwilio am gyfnod o **saith wythnos** o ddyddiad yr hysbysiad hwn yn ystod oriau swyddfa arferol (9yb – 5yh) drwy apwyntiad o flaen llaw yn:

Canolfan Fusnes Môn, Llangefni, LL77 7XA
(nid yw prif dderbynfa yn Swyddfeydd y Cyngor ar agor oherwydd cyfyngiadau yn sgîl y coronafeirws)

Mae gan y cyhoedd hawl i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor. Dylid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad uchod (wedi eu marcio i sylw Tudur Jones) neu ar-lein drwy www.ynysmon.gov.uk/cwrsgolffllangefni
Bydd unrhyw sylwadau a wneir o fewn **saith wythnos** o ddyddiad y rhybudd hwn yn cael eu hystyried gan y Cyngor. Mae gennym ddisgresiwn i ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.

Mae'r holl wybodaeth perthnasol ar gael ar y wefan
www.ynysmon.gov.uk/cwrsgolffllangefni

Cyhoeddir rhybudd o fwriad arfaethedig y Cyngor Sir i waredu'r tîr yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015
DYDDIEDIG: **12.10.2020**
Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar: **30.11.2020**

I drefnu apwyntiad i weld y dogfennau perthnasol neu eu derbyn trwy e-bost neu bost, cysylltwch a Tudur H. Jones, Rhelowr Prosiect – Datblygu Economaidd

AM FWY O WYBODAETH YNGHYLCH YR UCHOD, DYLECH GYSYLLTU Â'R CYNGOR AR:

tudurjones@ynysmon.gov.uk
neu 01248 752 435